

Protocol Cyn-Etholiad ar gyfer gweithwyr ac aelodau etholedig

Etholiadau Llywodraeth Leol - Dydd Iau 5 Mai 2022

Cyflwyniad

Bwriad y canllaw hwn yw hysbysu gweithwyr ac aelodau etholedig y Cyngor yn ystod y cyfnod cyn yr Etholiadau Lleol ym mis Mai eleni a elwir y "Cyfnod Cyn-Etholiad".

Bydd Etholiadau'r Cyngor (Bwrdeistref) Sirol a Chynghorau Tref a Chymuned yn cael eu cynnal **ddydd Iau 5 Mai 2022**. Bydd rhybudd ffurfiol o'r etholiadau'n cael eu cyhoeddi **18 Mawrth 2022** a gelwir y cyfnod rhwng y dyddiad hwn a chau'r pôl ar 5 Mai y '**cyfnod cyn-etholiad**'. (Ni ddylid defnyddio'r term 'Purdah').

Yn ystod cyfnod yr etholiadau, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn parhau'n ddi-dduedd. Ni ddylai'r Cyngor ddefnyddio na rhoi'r argraff o ddefnyddio arian cyhoeddus i hyrwyddo un ymgeisydd/ plaid wleidyddol neu ei bolisïau/ eu polisïau dros un arall.

Rhaid i weithwyr:-

- a) Ddilyn cyngor ar y cyswllt gyda chynghorwyr a ffigyrau gwleidyddol eraill
- b) atal unrhyw awgrym o ddefnydd gwleidyddol anghyfiawn o adnoddau'r Cyngor i bwrpas hyrwyddo unrhyw ymgeisydd neu blaid wleidyddol
- c) osgoi cyhoeddi datganiadau a ellir eu hystyried fel dadleuol a chan hynny'n rhoi mantais neu anfantais wleidyddol i un ymgeisydd neu blaid ar draul un arall.

Bydd rhestr lawn o'r ymgeiswyr yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor a sianelau cyfryngau eraill.

Bydd y Cynghorwyr presennol yn parhau i weithredu fel aelodau tan ddydd Llun 9 Mai 2022, pan fydd yr aelodau newydd a etholwyd ddydd Iau 5 Mai 2022 yn cymryd eu swydd yn ffurfiol.

CANLLAWIAU I GYNGHORWYR

Ni ddylai Cynghorwyr sy'n gwasanaethu geisio defnyddio eu swydd fel Aelodau i gael gwasanaeth breiniol oddi wrth y Cyngor mewn perthynas â;

- cyhoeddi a defnyddio gwybodaeth gyfrinachol
- defnyddio eiddo'r Cyngor
- defnyddio amser staff
- ymweld â sefydliadau'r Cyngor
- Darparu triniaeth ffafriol i'w hetholwyr

Dylai unrhyw gyfleusterau neu adnoddau a ddarperir gan y Cyngor i'r aelodau i wneud eu dyletswyddau fel cynghorwyr gael eu defnyddio ar gyfer y dyletswyddau hynny yn unig ac nid ar gyfer unrhyw ddibenion ymgyrchu. Gallant barhau i ddefnyddio adnoddau'r Cyngor ar gyfer dyletswyddau'r Cyngor yn ystod y cyfnod cyn etholiad.

Fodd bynnag, ni ddylid eu defnyddio ar gyfer ymgyrchu etholiadol neu ganfasio. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth gan y Gwasanaethau Aelodau. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni ddylai Aelodau ddefnyddio unrhyw galedwedd neu becynnau TGCh a ddarperir gan y Cyngor chwaith, gan gynnwys cyfleusterau e-bost, at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig â'u hymgyrch etholiadol.

CANLLAWIAU I WEITHWYR

Dylai staff weithredu'n deg ac yn ddiduedd bob amser tuag at yr holl ymgeiswyr. Yn eu rhinwedd proffesiynol, ni ddylent gymryd rhan mewn unrhyw gyhoeddusrwydd a allai eu cysylltu gyda neu ymddangos i ffafrio unrhyw ymgeisydd neu blaid wleidyddol.

Dylid ymdrin ag unrhyw ohebiaeth, ymholiadau ac unrhyw ddarpariaeth a ganiateir o gyfleusterau neu wybodaeth yn deg rhwng ymgeiswyr, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fantais neu ffafriaeth arbennig yn cael ei roi. Yn gyffredinol, mae ganddynt hawl i'r un wybodaeth a mynediad i'r un adeiladau ag sydd gan y cyhoedd. Os oes gennych unrhyw amheuon ynghylch ym mha rinwedd mae person yn gweithredu, dylech wirio hyn a siarad gyda'r Swyddog Canlyniadau neu ei aelodau staff uwch.

Mae holl gyhoeddusrwydd y cyngor â'r posibilrwydd o fod yn sensitif yn y cyfnod sy'n arwain at yr etholiadau. Efallai bydd Cynghorwyr presennol yn sefyll i'w haillethol ac efallai bydd nifer o aelodau etholedig Ynys Môn yn gysylltiedig ag ymgyrchoedd etholiadol fel asiantau neu ymgyrchwyr.

Dylai gweithwyr fod yn ofalus i beidio â rhoi, neu i gael eu gweld yn rhoi, mwy o amlygrwydd mewn unrhyw gyhoeddusrwydd i Gynghorwyr presennol dros ymgeiswyr eraill ar gyfer y seddi y byddant yn cystadlu drostynt.

Ni ddylid arddangos unrhyw bosteri gwleidyddol na deunydd etholiad tebyg mewn unrhyw swyddfa neu sefydliad y Cyngor neu ar geir a ddefnyddir gan staff ar gyfer busnes swyddogol neu sy'n cael eu parcio ym meysydd parcio swyddfeydd y Cyngor.

Yn yr un modd, ni ddylai unrhyw ddeunydd gwleidyddol / etholiad o'r fath gael ei arddangos gan unrhyw gontractwr neu wirfoddolwr sy'n gweithio gyda neu ar ran y Cyngor. Dylai staff wneud hyn yn glir mewn unrhyw gontractau neu Gytundebau Lefel Gwasanaeth perthnasol gyda'r Cyngor.

Ni ddylid defnyddio eiddo'r Cyngor mewn unrhyw ffordd i hyrwyddo neu ddangos unrhyw arwydd o ffafriaeth neu gefnogaeth ar gyfer unrhyw ymgeisydd unigol neu blaid wleidyddol. Gellir caniatáu ffotograffau cyffredinol o du allan i adeilad y Cyngor o du allan i'r safle ar yr amod nad ydynt yn cael eu defnyddio i fanteisio neu dangos barn y Cyngor neu unrhyw un o'r disgyblion, preswylwyr neu staff sy'n gweithio yn y safle hwnnw.

Mae amgylchiadau lle gellir defnyddio adeiladau cyhoeddus ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus mewn cysylltiad â'r etholiadau. Os cysylltir â chi i ganiatáu defnydd o'r fath, cysylltwch ag aelod uwch o'r tîm etholiadol am gyngor cyn cymeradwyo defnydd o'r fath.

Staff mewn Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol

Ni chaniateir i'r staff hynny y mae eu swyddi wedi cael eu nodi fel bod 'dan gyfyngiadau gwleidyddol' i gymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch gwleidyddol. Mae hyn yn berthnasol bob amser, yn ystod oriau gwaith a thu allan ac nid yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad yn unig. Y prif weithgareddau gwaharddedig i'r swyddogion hyn yw:

- Bod yn ymgeisydd i'w ethol i Dŷ'r Cyffredin, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd neu'r Awdurdod Lleol;
- Gweithredu fel asiant ar gyfer ymgeisydd i'w ethol i un o'r cyrff uchod;
- Bod yn swyddog plaid wleidyddol neu un sy'n gweithredu ar ran ymgeisydd i'w ethol i un o'r cyrff uchod
- Canfasio ar ran plaid wleidyddol neu ar ran ymgeisydd;
- Siarad â'r cyhoedd neu i ran o'r cyhoedd gyda'r bwriad ymddangosiadol o effeithio ar gefnogaeth ar gyfer ymgeisydd neu blaid wleidyddol; a
- Chyhoeddi unrhyw waith ysgrifenedig sy'n ymddangos ei fod â'r bwriad o effeithio ar gefnogaeth gyhoeddus ar gyfer ymgeisydd neu blaid wleidyddol
- Cymryd rhan mewn trafodaeth wleidyddol weithredol gydag ymgeiswyr neu bleidiau drwy gyfryngau cymdeithasol. Yn hyn o beth y dylai staff dan gyfyngiadau o'r fath hefyd yn osgoi "hoffi", "dilyn" neu "gyfeillio" ymgeiswyr neu bleidiau gwleidyddol ar gyfryngau cymdeithasol.

Canfasio

Gall cwestiynau godi dros ymgeiswyr sy'n dymuno canfasio am gefnogaeth yn sefydliadau sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor megis llety â gwasanaeth warden. Dymuniadau'r preswylwyr / defnyddwyr ddylai fod yr ystyriaeth gyntaf; yr ail yw triniaeth deg a diduedd o'r holl ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol. Felly mae'n rhaid cynnig yr un cyfle i bob ymgeisydd ar gyfer rhanbarth etholiadol penodol.

Cyhoeddusrwydd / Digwyddiadau / Ymweliadau

Caiff cyhoeddusrwydd ei ddiffinio yn eang iawn fel *"unrhyw gyfathrebu, ym mha bynnag ffurf, a gyfeirir at y cyhoedd yn gyffredinol neu at ran o'r cyhoedd"*. Yn ogystal â chwmpasu ffurfiau mwy amlwg megis areithiau, taflenni ac erthyglau papur newydd a gyhoeddir gan neu ar ran y Cyngor, gall gynnwys nawdd, cyfarfodydd, hyd yn oed lliw arddangosfeydd blodau ac ymweliadau Gweinidogol neu swyddogol eraill sy'n cael eu cynnal neu y gofynnir amdanynt yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad.

Mae'r ffactorau i'w cadw mewn cof wrth ystyried a yw eitem o gyhoeddusrwydd wedi'i wahardd yn cynnwys:

- cynnwys ac arddull y deunydd;
- amser ac amgylchiadau'r cyhoeddiad;
- effaith debygol y deunydd ar y rhai y mae wedi'i gyfeirio atynt;
- a yw'r deunydd yn hyrwyddo neu'n gwrthwynebu safbwynt ar gwestiwn sy'n destun dadlau gwleidyddol sy'n gallu cael ei adnabod yn benodol fel safbwynt un ymgeisydd ond nid pawb; ac

- os yw'r deunydd yn rhan o ymgyrch, yr effaith gyhoeddus y cynllunir i'r ymgyrch honno ei chael

Yn ystod y cyfnod cyn etholiad, dylid osgoi cyfarfodydd ad-hoc gydag ymgeiswyr a gwleidyddion eraill oni bai eu bod yn gyfarfodydd rheolaidd (er enghraifft corff partneriaeth) lle byddai'r unigolion dan sylw fel arfer yn cymryd rhan.

Felly yn gyffredinol dylai Swyddogion yn ymatal rhag gwahodd gwleidyddion i gyfarfodydd / cynadleddau / agoriadau / lansiadau ac ati yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad.

Dylid osgoi ymweliadau gweinidogol yn ystod y cyfnod etholiad hwn; gellir gofyn am gyngor yn ymwneud ag ymweliadau Gweinidogion uniongyrchol oddi wrth y Swyddog Canlyniadau neu ei uwch staff etholiadol neu gyfathrebu, a fydd yn rhoi cyngor yn unol â hynny.

Dylai pob gweithgarwch hyrwyddo arfaethedig y cyngor gael ei glirio o flaen llaw gyda thîm Cyfathrebu Corfforaethol y Cyngor.

Defnyddio eiddo ac adnoddau sy'n berchen i'r Cyngor

Gwaherddir awdurdodau lleol rhag cynorthwyo unrhyw Gyngorydd, Aelodau Cynulliad, Aelodau Seneddol, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, ymgeisydd neu asiant i gyhoeddi deunydd cyhoeddusrwydd. Felly, ni ddylid defnyddio cyfleusterau argraffu a phostio'r Cyngor ar gyfer argraffu, cyfieithu a phostio cyhoeddusrwydd gwleidyddol ac ni ddylai'r Cyngor fod wedi darparu cefnogaeth a / neu adnoddau TGCh i gael ei ddefnyddio i dderbyn neu ledaenu deunyddiau cyhoeddusrwydd gwleidyddol.

Tra bod ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol â'r hawl i ddefnyddio ysgolion ac ystafelloedd cyfarfod cyhoeddus ar gyfer cyfarfodydd o dan amgylchiadau penodol, fel sydd eisoes wedi'i amlinellu, nid yw'n briodol i bosteri neu sticeri parti gwleidyddol ymddangos tu mewn, ar neu gerllaw swyddfeydd y Cyngor, cartrefi preswyl, depos, ysgolion, cerbydau ac ati.

Gwefannau

Ni fydd deunydd cyhoeddusrwydd o natur wleidyddol yn cael ei ganiatáu ar wefan y Cyngor nac unrhyw un o'i dudalennau cyfryngau cymdeithasol.

Ymgynghori

Ni ddylid cynnal ymarferion ymgynghori mawr yn ystod y cyfnod cyn etholiad. Yr eithriad i hyn yw pan fydd gwasanaethau angen ymgymryd ag ymgynghoriad statudol e.e. ar geisiadau cynllunio, neu os yw corff allanol e.e. Llywodraeth Cymru yn mynnu bod y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad yn ystod y cyfnod hwn. Os bydd angen arweiniad pellach, yna dylech siarad gyda'r Swyddog Canlyniadau neu ei staff uwch.

Busnes arferol y cyngor yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad

Nid oes gwaharddiad ar gynnal busnes arferol y Cyngor neu wneud penderfyniadau yn ystod y cyfnod cyn etholiad. Fodd bynnag, yn y cyfnod sy'n arwain at fis Mai 2022, mae'n debygol y bydd hyd yn oed "busnes fel arfer" yn dod yn fwyfwy gwleidyddol. Bydd angen i chi fod yn ofalus i osgoi'r honiad y bydd cynigion swyddog penodol yn effeithio ar gefnogaeth ar gyfer un ymgeisydd neu blaid wleidyddol - a gohirio penderfyniad o fewn rheswm, os mai felly yw hi.

Cysylltu â'r Wasg

Dylai pob cysylltiad â'r wasg fod trwy dîm Cyfathrebu Corfforaethol y Cyngor.

Bydd cyhoeddusrwydd normal a gynhyrchir gan y Cyngor drwy'r datganiadau i'r wasg arferol yn parhau, fel y bydd ymholiadau'r cyfryngau, gan gynnwys, weithiau, y rhai o natur ddadleuol.

Os byddwch angen arweiniad pellach ar yr isod, cysylltwch â y Swyddog Canlyniadau (Swyddfa'r Prif Weithredwr) neu y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol.

Gwybodaeth Gefndir

Cod Ymarfer a Argymhellir ar Gyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022: <https://senedd.cymru/media/npbgbt5u/sub-ld14871-w.pdf>